# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 77(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar gostau byw

(30 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Gwastadeddau Gwent / Ardaloedd sy'n Esiampl i Eraill o ran Adfer Natur

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynllun Gweithredu Drafft ar HIV

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar Ddiogelwch Adeiladau – TYNNWYD YN ÔL

(0 munud)

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar Wcráin

(30 munud)

## 8 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

(5 munud)

**NDM8022** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn canlynol:

a) Adran 1;

b) Atodiad 1;

c) Adrannau 2 – 24;

d) Atodiad 2;

e) Adrannau 25 – 56;

f) Atodiad 3;

g) Adrannau 57 – 144;

h) Atodiad 4;

i) Adrannau 145 – 146;

j) Teitl Hir.

## 9 Dadl: Darlledu

(60 munud)

**NDM8023** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu creu'r panel arbenigol a fydd yn ymchwilio i sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru.

2. Yn nodi bod y Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn datgan eu bod yn gytûn y dylid datganoli pwerau darlledu a chyfathrebu i'r Senedd.

Y Cytundeb Cydweithio

**Cyd-gyflwynydd**
Sian Gwenllian (Arfon)

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 1.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 09/06/2022 i'w hateb ar 14/06/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

1 OQ58189 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i inswleiddio'r tai mwyaf aneffeithlon o ran ynni?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

2 OQ58183 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi bwyd ym Mlaenau Gwent?

**Ken Skates** *De Clwyd*

3 OQ58196 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i bobl yn Ne Clwyd yn sgil yr argyfwng costau byw presennol?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

4 OQ58192 **(w)**

Pa gynnydd mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud ar weithredu'r Strategaeth Ryngwladol i Gymru?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

5 OQ58180 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu ymwybyddiaeth o faterion iechyd dynion?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

6 OQ58190 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhieni disgyblion ysgolion cynradd yn Islwyn gyda chost y diwrnod ysgol?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

7 OQ58193 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith costau byw cynyddol ar bobl Ogwr?

8 **Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**OQ58160 (e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r sector ynni alltraeth?

9 **Hefin David** *Caerffili*

**OQ58195 (e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y pwysau sy'n wynebu Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd?

10 **Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

**OQ58175 (e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o gludiant i ddysgwyr?

11 **Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

**OQ58191 (w)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar bolisi caffael tir y Llywodraeth?

12 **Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

**OQ58158 (e)**

Beth yw cynllun Llywodraeth Cymru i godi’r gwastad o ran economi Cymru?